

Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn



Cyflwyniad

1. Caiff Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn (TTD) eu talu gan y Cyngor i gynorthwyo'r rhai sy'n derbyn Budd-dal Tai â'u costau tai. Fel arfer bydd hyn yn digwydd pan nad yw Budd-dal Tai yn talu cost lawn y rhent ac mae'r preswylwyr yn ei chael yn anodd talu gweddill y rhent.
2. Bydd TTD yn parhau i gael eu gweinyddu gan y Cyngor pan fydd Credyd Cynhwysol wedi cymryd lle'r systemau budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd presennol.
Caiff TTD eu talu o gyllideb sydd â therfyn arian ac mae'r fframwaith hwn yn gosod ymagwedd y cytunwyd arni o ran penderfynu pwy ddylai dderbyn Taliad Tai yn ôl Disgresiwn. Mae wedi'i ddylunio i wneud y broses gwneud penderfyniadau yn fwy systemataidd, yn fwy cyson ac yn fwy tryloyw.
3. Nid yw'n bosib (ac nid yw'n fwriad) i ddyfarnu arian i bob achos lle y mae diffyg o'r math. Felly, mae'r fframwaith polisi hwn yn ffordd o helpu i benderfynu ar flaenoriaethau ar gyfer taliadau pan efallai fydd gormod o bobl yn gofyn amdanynt.

Nod y Polisi hwn

4. Nid oes unrhyw hawl awtomatig i Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn. Nid oes modd i'r Cyngor helpu pawb sy'n gofyn am gymorth i dalu eu costau tai felly mae'n rhaid i benderfyniadau anodd cael eu gwneud o ran blaenoriaethau a phwy i'w gynorthwyo. Mae'n bwysig ein bod yn cynorthwyo'r cartrefi sydd angen cymorth y mwyaf.
5. Gan gynnwys Casnewydd, mae 20 o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru wedi cydweithio i ddatblygu polisi i sicrhau bod dyfarniadau yn deg a chyson a'u bod yn blaenoriaethu'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Mae'r polisi hwn yn gosod yr amcanion o ran gwneud penderfyniadau i ddyfarnu arian ar sail blaenoriaethau'r cartrefi sy'n ymgeisio am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn:
 - I roi penderfyniad i bob ymgeisydd sydd mor deg a chyson â phosib.
 - I wneud penderfyniadau sydd wedi'u dylunio i wella canlyniadau i bobl.
 - I wario'r gyllideb a gwneud cyn lleied o newidiadau yn ystod y flwyddyn â phosib (efallai y bydd angen gwneud newidiadau i osgoi sefyllfa o orwario neu danwario).
 - Yn gyffredinol, i roi blaenoriaeth fwy i:
 - Helpu'r rhai sy'n gwneud ymdrech i helpu eu hunain;
 - Cefnogi'r rhai sydd wedi gwneud popeth o fewn eu gallu i reoli eu sefyllfa ac nid oes modd iddynt wneud mwy, yn rhesymol;
 - Atal canlyniadau negyddol fel digartrefedd sy'n debygol o gynnwys caledi pellach i'r cartref yn ogystal ag achosi costau ychwanegol i'r cyngor a all gael eu hosgoi.

Polisi

6. Y ffactorau hanfodol wrth benderfynu ar flaenoriaethau yw:

6.1 Amgylchiadau ariannol y cartref;

- Cynhelir asesiad ariannol ar gyfer pob cais gan gymharu incwm â gwariant. Mae hyn mor syml â phosib ond yn ddigon i wneud dyfarniad rhesymol. Caiff holl incwm a gwariant y cartref ei ystyried gan gymryd i ystyriaeth unrhyw gyfalaf. Nid ydym yn diystyried unrhyw ffynhonnell incwm ac rydym yn cymryd i ystyriaeth bob math o wariant. Os oes unrhyw un yn y cartref nad yw'n ddibynnydd fel arfer caiff yr incwm y maent yn ei gyfrannu i'r cartref ei gynnwys yn yr asesiad ariannol, er derbynnir y bydd gwariant bwyd a gwres y cartref yn uwch. Yr egwyddor sylfaenol yw y dylai'r cymorth gael ei roi i'r rhai nad oes ganddynt unrhyw fodd arall i ddiwallu'r angen.
- Mae'r prawf ychydig yn wahanol yn achos cyfandaliadau (e.e. blaendaliadau rhent, rhent o flaen llaw a chostau symud). Yn yr achos hwn bydd dwy ran i'r prawf: yn gyntaf, a oes modd diwallu'r angen trwy wneud arbedion? Os na, ydy'r incwm ar yr un lefel â'r gwariant neu'n is na'r gwariant neu nid yw'n sylweddol uwch na'r gwariant ac oes gan yr ymgeisydd unrhyw obaith o arbed y swm sydd ei angen?

6.2 Amgylchiadau ehangach y cartref gan gynnwys i ba lefel y disgwylir i aelodau cartref gyrraedd cyn iddynt gyrraedd lefel lle nad oes modd iddynt wneud mwy, yn ogystal â'r canlyniadau ariannol ehangach pe na bai'r arian yn cael ei ddyfarnu.

6.3 Gallu aelodau'r cartref i reoli'r sefyllfa;

- Fel arfer, gall Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn gael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol fel mesur dros dro wrth i aelodau'r cartref chwilio am ddatrysiad mwy hir dymor i'w sefyllfa. Lle bod hyn yn bosib, caiff blaenoriaeth fwy ei rhoi i'r rhai sy'n cymryd camau eu hunain, er enghraifft, y rhai sydd â diffyg yn eu Lwfans Tai Lleol sy'n chwilio am lety rhatach neu'r rhai sydd ag ystafelloedd sbâr sy'n trefnu symud neu'n chwilio am letywr.
- Fodd bynnag, mae hefyd rhai sefyllfaoedd lle y bydd angen TTD am gyfnod hirach. Bydd rhai cartrefi lle nad oes modd iddynt ddatrys eu sefyllfa yn rhesymol trwy eu gweithredoedd eu hunain. Er enghraifft, cartref sydd ag aelod sydd ag anabledd difrifol nad oes modd iddo weithio neu chwilio am letywr ac sydd eisoes yn rheoli cyllideb y cartref mor effeithiol â phosib.

6.4 Yr angen i osgoi costau pellach a chaledi

- Mae modd defnyddio Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn ffordd greadigol i helpu i atal caledi pellach fel cael eu troi allan a'r costau sy'n gysylltiedig â hynny i'r cyngor o ran mynd i'r afael â digartrefedd. Gallai risg o golli tenantiaeth godi am nifer o

resymau ond nid ydym yn gwneud unrhyw ddyfarniad o ran y ffactorau sydd wedi arwain at y broblem. Nod y maen brawf hwn yw osgoi costau a chaledi pellach.

- Mae'n annhebygol y bydd yn ddichonadwy talu TTD yn ddi-ben-draw o dan yr amgylchiadau hyn. Os oes bygythiad y caiff preswylwyr eu troi allan o'u cartref nid oes modd gadael i'r sefyllfa hon barhau am gyfnod amhenodol. Mae angen dod o hyd i ddatrysiad boed trwy ddarparu llety amgen neu weithredu arall gan y preswylwyr i ostwng eu hól-ddyledion. Gweithredir y flaenoriaeth uchaf o dan y maen brawf hwn pan fo datrysiad o fewn golwg.

Amodoldeb

7. Caiff y mwyafrif o'r dyfarniadau blaenoriaeth uchaf eu talu yn ddiamed naill ai oherwydd nad yw'n debygol y bydd unrhyw newid tymor byr i'r amgylchiadau yn dilyn derbyn TTD neu fod aelodau'r cartref eisoes yn gwneud popeth o fewn eu gallu i reoli eu sefyllfa.
8. Caiff pob dyfarniad arall ei roi ar sail rhywfaint o amodoldeb sydd wedi'i dylunio i annog yr ymgeisydd i ddatrys y diffyg rhent heb dderbyn TTD. Mae lefel yr amodoldeb yn dibynnu ar yr amgylchiadau - mewn rhai achosion bydd amodau ysgafn, mewn achosion eraill bydd yr amodau yn llym iawn. Mewn nifer o achosion, bydd amodoldeb yn cynnwys cyfeirio at asiantaethau cymorth a chyngor.

Hyd y Dyfarniad

9. Mae hyd y dyfarniad wedi'i gysylltu'n agos â lefel yr amodoldeb. Lle nad oes unrhyw amodoldeb ynghlwm â dyfarniad h.y. mae angen cyfnod hirach, fel arfer mae'n fwy dymunol rhoi dyfarniad am hyd at uchafswm o 52 wythnos (neu'n hirach) am fod y sefyllfa sydd wedi arwain at angen y TTD yn annhebygol o newid. O dan yr amgylchiadau hyn, mae dyfarniadau cyfnod byr yn arwain at ail-ddyfarniadau diangen. Mewn achosion eraill, lle y caiff amodoldeb ei roi, mae hyd y dyfarniad fel arfer yn amrywio o rhwng 6 a 26 wythnos yn dibynnu ar hyd y cyfnod sydd ei angen i lwyddo i ddiwallu'r amodau. Nid oes unrhyw gyfnod safonol ar gyfer dyfarniad.

Ail-ddyfarniadau/Estyniadau

10. Unwaith eto, amodoldeb yw'r ffactor allweddol wrth benderfynu a ddylai ail-ddyfarniad gael ei roi. Fel arfer nid oes unrhyw gyfyngiadau ar gyfer ail-ddyfarnu lle nad oes unrhyw amodoldeb wedi'i osod. Mewn achosion o'r fath gofynnir i'r ymgeisydd am unrhyw newidiadau sydd wedi bod yn hytrach na disgwyl iddynt lenwi ffurflen gais newydd.

11. Lle y mae amodau ynghlwm â'r dyfarniad, fel arfer caiff y dyfarniad ei derfynu ar ôl cyfnod cychwynol y dyfarniad. Os bydd yr ymgeisydd yn ceisio am ddyfarniad pellach, caiff hwn ei wneud os yw'r ymgeisydd yn cyflawni amodau'r dyfarniad cyntaf. Lle y caiff dyfarniad pellach ei roi efallai mai dyfarniad rhannol fydd hwnnw (gweler isod).
12. Mae modd i ddyfarniad gael ei ymestyn am gyfnod byr, heb orfod cyflwyno cais newydd, mewn rhai amgylchiadau:
 - Pan gaiff cais ei gyflwyno gan weithwyr cymorth am reswm dilys;
 - Wrth aros am newid mewn sefyllfa (e.e. symud tŷ, geni plentyn);
 - Pan fo angen mwy o amser i ddiwallu'r amodau sydd ynghlwm â dyfarniad.

Dyfarniadau rhannol

13. Fel arfer bydd y dyfarniad am swm wythnosol a fydd yn talu'r diffyg rhwng y rhent a'r Budd-dal Tai. Fodd bynnag, efallai bydd achlysuron pan fydd yn fwy priodol i roi dyfarniad rhannol. Efallai caiff dyfarniadau rhannol eu rhoi pan fod:
14. Peth incwm ar gael i aelodau'r cartref (ond nid digon i dalu diffyg y rhent), gan gynnwys sefyllfaoedd lle y mae mwy o incwm ar gael am fod dyledion yn cael eu talu;
 - Mae polisi pwrpasol i alluogi cartref i addasu i sefyllfa newydd yn raddol e.e. y cap budd-daliadau;
 - Mae amodau yn gysylltiedig â dyfarniad ond nid yw'r amodau wedi'u diwallu;
 - Yn ôl disgresiwn y cyngor o dan rai amgylchiadau eraill (e.e. pan fo lefelau rhent afresymol o uchel mewn achosion yn y sector preifat).

Newid mewn amgylchiadau

15. Disgwylir i bob ymgeisydd adrodd am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau fel y byddant ar gyfer Budd-dal Tai. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i'w hincwm, patrymau gwariant neu gyfansoddiad y cartref. Mae mwyafrif yr hysbysiadau am newid mewn amgylchiadau yn ymwneud â Budd-dal Tai yn yr achos cyntaf ond, lle y caiff TTD eu talu, fel arfer maent yn achosi i'r dyfarniad TTD gael ei ganslo. Mae modd cyflwyno cais newydd yn dilyn hyn os yn berthnasol.
16. Yn gyffredinol, caiff unrhyw ordaliadau TTD eu cyfrif a, lle y bo'n berthnasol, byddwn yn ceisio eu hadennill.

Ceisiadau am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn

17. Mae modd llenwi ceisiadau ar-lein ar wefan y Cyngor www.newport.gov.uk <<http://www.newport.gov.uk>>, neu drwy asiantaethau partner a Chymdeithasau Tai. Mae modd derbyn copïau papur o'r ffurflenni gan yr Orsaf Wybodaeth a'u dychwelyd yno.